

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Mai 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

74(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A–D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Tom Giffard (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu dosbarthiad llety hunanarlwyo at ddibenion treth leol?



4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

NNDM8010 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jayne Bryant (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn lle Alun Davies (Llafur Cymru).

5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Datgarboneiddio pensiynau'r sector cyhoeddus

(60 munud)

NDM7964 [Jack Sargeant \(Alun a Glannau Dyfrdwy\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) mai Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan gydnabod y bygythiad difrifol y mae newid yn yr hinsawdd yn ei achosi;

b) bod cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn parhau i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil ac, ers blynyddoedd lawer, mae ymgyrchwyr wedi annog cynlluniau i ddadfuddsoddi;

c) bod partneriaeth bensiwn Cymru wedi symud yn gyflym i dynnu buddsoddiad o ddaliadau Rwsia yn ôl a'i fod wedi symud oddi wrth lo o'r blaen, gan ddangos felly ei bod yn bosibl i gronfeydd pensiwn wneud y penderfyniadau hyn;

d) bod Aelodau'r Senedd wedi cymryd y cam cyntaf i symud eu cronfeydd pensiwn eu hunain oddi wrth danwydd ffosil;

e) pe bai cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dadfuddsoddi, Cymru fyddai'r wlad gyntaf yn y byd i gyflawni hyn, gan ddangos i ddarparwyr cronfeydd yr angen i greu cynhyrchion buddsoddi di-danwydd ffosil.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â thargedau sero net presennol y sector cyhoeddus.

Cefnogwyr

[Alun Davies \(Blaenau Gwent\)](#)

[Buffy Williams \(Rhondda\)](#)

[Carolyn Thomas \(Gogledd Cymru\)](#)

[Cefin Campbell \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

[Heledd Fychan \(Canol De Cymru\)](#)

[Jane Dodds \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

[Jayne Bryant \(Gorllewin Casnewydd\)](#)

[Llyr Gruffydd \(Gogledd Cymru\)](#)

[Luke Fletcher \(Gorllewin De Cymru\)](#)

[Peredur Owen Griffiths \(Dwyrain De Cymru\)](#)

[Rhys ab Owen \(Canol De Cymru\)](#)

[Sarah Murphy \(Pen-y-bont ar Ogwr\)](#)

[Vikki Howells \(Cwm Cynon\)](#)

6 Dadl ar ddeiseb P-06-1249 – Darparu llwybr clinigol, gofal meddygol, ac arbenigwyr i bobl â Syndrom Tourette yng Nghymru
(30 munud)

NDM8008 [Jack Sargeant \(Alun a Glannau Dyfrdwy\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb '[P-06-1249 Darparu llwybr clinigol, gofal meddygol, ac arbenigwyr i bobl â Syndrom Tourette yng Nghymru](#)' a gasglodd 10,393 o lofnodion.

7 Dadl Plaid Cymru – Cyllid ar ôl Brexit

(60 munud)

NDM8009 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu nad yw ffrydiau ariannu ar ôl Brexit yn gweithio i Gymru.

2. Yn gresynu at y ffaith y bydd Cymru £1 biliwn ar ei cholled o ran cyllid na chafwyd arian yn ei le dros y tair blynedd nesaf.

3. Yn credu bod trefniadau newydd sy'n cael eu rhedeg yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU wedi tanseilio gallu Llywodraeth Cymru i gynllunio gwariant yn strategol er budd Cymru a'i chymunedau.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i adfer goruchwyliaeth ddemocrataidd Cymru dros y ffrydiau ariannu ar ôl Brexit drwy eu datganoli i'r Senedd.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth y DU i rymuso cymunedau lleol yng Nghymru drwy'r agenda ffyniant bro a'r gronfa ffyniant gyffredin.

2. Yn croesawu'r cadarnhad a gafwyd dro ar ôl tro gan Lywodraeth y DU na fydd Cymru ar ei cholled o ran cyllid ar ôl ymadael â'r UE.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r ffordd y gweinyddir cronfeydd yr UE o dan gynlluniau'r cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd fel bod buddsoddiad gan y ddwy lywodraeth yn y dyfodol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i economi Cymru.

8 Cyfnod Pleidleisio

9 Dadl Fer

(30 munud)

NDM8007 [Carolyn Thomas \(Gogledd Cymru\)](#)

Bioamrywiaeth: y darlun mawr. Hau'r dyfodol – pwysigrwydd rheoli ymylon glaswellt a glaswelltiroedd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Mehefin 2022